



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Llyfr Gwaith Achos y Comisiynydd

Hydref 2017

Sefyll a Siarad Dros Bobl Hŷn
ledled Cymru

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod llais pobl hŷn yn cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaeth sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio – nid i rai pobl yn unig ond i bawb.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670
E-bost: gofyn@olderpeoplewales.com
Gwefan: www.olderpeoplewales.com
Twitter: [@comisiwnphcymru](https://twitter.com/comisiwnphcymru)

Fformatau hygyrch

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni. Mae pob cyhoeddiad hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'i archebu mewn amrywiaeth o fformatau o'n gwefan.

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Pryd a sut gallaf helpu	6
Themâu sy'n deillio o'm Gwaith Achos	9
Astudiaethau Achos	11
Atodiad 1: Pwerau Cyfreithiol	30

Cyflwyniad

Mae pobl hŷn o bob cwr o Gymru yn cysylltu â fi yn rheolaidd, yn ogystal â'r rheini sy'n gofalu amdany'n nhw ac yn poeni amdany'n nhw. Pobl sydd angen help i herio'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau ac yn gweithredu. Ers dod yn Gomisiynydd ym mis Mehefin 2012, rwyf wedi darparu cefnogaeth a chymorth i dros 1,250 o bobl.

Wrth wraidd fy ffordd o weithio yw sicrhau bod yr unigolyn wastad yn teimlo'n rymus a'i fod yn cael ei gymryd o ddifri a bod cyrff cyhoeddus yn atebol. Gall rhai achosion gymryd blynyddoedd i'w datrys neu i ddarganfod beth ddigwyddodd i rywun annwyl. Mae fy nghefnogaeth yn parhau cyhyd ag sydd angen.

Mae amgylchiadau pob unigolyn sy'n cysylltu â fi yn unigryw iddyn nhw, ond mae'r rhan fwyaf yn wynebu trallod sylweddol, ac yn poeni, yn bryderus ac wedi'u dadrithio. Mae nifer ohonyn nhw wedi brwydro'n galed i gael eu pryderon wedi'u datrys, ond heb fawr o lwyddiant yn aml iawn.

Mae nifer o'r bobl rwy'n eu cefnogi yn teimlo bod eu hawl i wneud dewisiadau ynglŷn â'r pethau sy'n effeithio ar eu bywydau wedi cael eu tynnu oddi wrthyn nhw. Maen nhw'n teimlo bod eu pryderon yn cael eu gweld yn amherthnasol ac nad oes neb wedi gwrando arny'n nhw, sy'n arwain at gamau sydd ddim yn adlewyrchu eu dymuniadau.

Mae pobl yn dweud wrthyf bod y prosesau cwyno, apelio ac ymchwilio y maen nhw wedi ymwneud â nhw yn amhosib i'w llywio, sy'n arwain at ddryswch, rhwystredigaeth a diffyg hyder y bydd ein cyrff cyhoeddus yn ymateb yn briodol ac yn cymryd y camau cywir pan fydd pethau'n mynd o chwith.

Mae rhai o'r achosion rwyf wedi bod yn gysylltiedig â nhw yn achosion na ddylem orfod ymyrryd ynddyn nhw. Mae fy ymyrraeth yn adlewyrchiad o systemau sy'n aml yn methu â gwrando ar bobl hŷn, cydnabod eu dymuniadau a thrin yr hyn maen nhw'n ei ddweud yn ddigon difrifol i weithredu. Mae nifer o bobl yn dweud mai dyma'r tro cyntaf i rywun eu credu nhw a'u cymryd o ddifri. Yn aml, gall materion sy'n cael eu gweld yn ddibwys gan y rheini nad ydyn nhw'n cael eu heffeithio gael effaith fawr ar y rheini sy'n cael eu heffeithio. Ni ddylai fy ymyrraeth i orfod digwydd wrth sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gwrando ar bobl hŷn ac yn gweithredu ar eu pryderon. I nifer o bobl, mae'n amlwg na fyddai'r materion maen nhw'n eu hwynebu wedi'u datrys heb fy ymyrraeth i.

Mae nifer o'r unigolion rwy'n eu cefnogi yn dweud wrthyf eu bod yn teimlo'n ddi-bŵer ac yn wynebu amrywiaeth o rwystrau pan fyddan nhw'n ceisio amddiffyn eu hunain a hawlio'r hyn sy'n ddyledus iddyn nhw. Drwy fy ngwaith achos, rwy'n

galluogi i leisiau pobl gael eu clywed a grymuso unigolion i gael cyfiawnder ac atebion pan fo'u bywydau wedi'u heffeithio gan amgylchiadau anodd, methiant gwasanaeth neu gamdriniaeth.

Mae'r achosion mwyaf cymhleth y mae fy nhîm a finnau yn eu derbyn yn ymwneud â diogelu oedolion. Mae nifer o'r bobl hîn sy'n cysylltu â fi am gymorth yn ofidus iawn o ganlyniad i'w profiadau, yn enwedig mewn achosion lle gellid bod wedi rhwystro'r niwed. Yn aml iawn, maen nhw'n teimlo nad yw eu pryderon wedi'u cymryd o ddifri ac maen nhw wastad yn dweud nad ydyn nhw eisiau i unrhyw un arall gael profiad tebyg. Maen nhw eisiau i gyrff cyhoeddus ddysgu wrth eu camgymeriadau a defnyddio eu profiad i osgoi niwed i bobl eraill.

Mae'r materion rwy'n eu nodi yn fy ngwaith achos yn llywio fy ngwaith fel Comisiynydd, ac rwy'n rhannu'r materion hyn yn aml gyda chyrrff cyhoeddus i'w helpu gyda'u polisïau a'u harferion presennol ac yn dyfodol. Rwy'n cyhoeddi fy ail llyfr gwaith achos i danlinellu rhai o'r materion hyn, yn ogystal â'r themâu trawsbynciol sy'n dwysáu'r materion hyn ac yn creu rhwystrau a sialensiau ychwanegol i bobl hîn wrth ddelio â gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y llyfr gwaith achos hwn yn cael ei ategu gan seminar cenedlaethol i gefnogi cyrrff cyhoeddus i ddysgu oddi wrth lleisiau a phrofiadau pobl hîn.

Mae llawer o waith da eisoes ar waith yng Nghymru i gefnogi a chynorthwyo pobl hîn, ac rwy'n talu teyrnged cyson i'r rheini sy'n gwneud hynny. Serch hynny, mae pethau'n mynd o chwith weithiau, a gall y canlyniadau i bobl hîn a'u hanwyliaid fod yn ddifrifol. Mae'n anodd dychmygu dyfnder y gofid a'r anobaith y mae pobl yn eu hwynebu pan fydd pethau'n mynd o chwith a'u gofidiau'n cael eu hanwybyddu. Mae angen cefnogaeth emosiynol ac ymarferol ar nifer.

Ochr yn ochr â'm gwaith ehangach fel Comisiynydd, byddaf yn parhau i ddefnyddio fy ngwaith achos i hyrwyddo a chodi llais dros bobl hîn ar draws Cymru ac i sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn eu grymuso a'u cefnogi i fyw bywydau annibynnol, llawn a bod ganddyn nhw hawliau sy'n real ac ystyrlon.



Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hîn Cymru

Pryd a sut gallaf helpu

Rhan allweddol o'r rôl fel Comisiynydd yw sicrhau bod buddiannau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hybu pan fydd cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu swyddogaethau. I gefnogi hyn, mae gennyf amrywiaeth o bwerau cyfreithiol sy'n fy ngalluogi i ddiogelu ac amddiffyn pobl hŷn (Atodiad 1), sy'n cynnwys darparu cefnogaeth, cymorth a chynghor yn uniongyrchol i bobl hŷn (neu rywun sy'n gweithredu ar eu rhan) drwy fy Nhîm Gwaith Achos.

Amlinellir y camau y gallaf eu cymryd i gynorthwyo pobl hŷn yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 (y Ddeddf), yn ogystal â manylion y sefydliadau sy'n dod o dan fy nghylch gwaith.

Gallaf ddarparu cefnogaeth a chymorth i unigolyn os:

- ydyn nhw'n 60 oed neu'n hŷn;
- ydyn nhw'n byw yng Nghymru;
- nad oes unrhyw sefydliad arall mewn sefyllfa well i ddarparu cefnogaeth; a
- mae'r ymchwiliad yn ymwneud â sefydliad neu gorff cyhoeddus sy'n dod o dan fy nghylch gorchwyl.

Weithiau mae'r materion y mae pobl yn eu codi gyda fi y tu allan i'm cylch gwaith. Yn yr achosion hyn, gallaf barhau i ddarparu cefnogaeth, er mai sgôp cyfyngedig a geir o ran gweithredu.

Rwy'n cymryd achosion gan bobl sy'n cysylltu â'm Tîm Gwaith Achos yn uniongyrchol - o wybodaeth sy'n cael ei rhannu â fi mewn digwyddiadau ymgysylltu â phobl hŷn a thrwy atgyfeiriadau gan aelodau o'r teulu, ffrindiau a chymdogion pryderus. Ar ôl i etholwyr gysylltu â nhw, rwyf hefyd yn derbyn atgyfeiriadau gan Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol.

Pan fydd person hŷn yn cysylltu â fi, bydd fy nhîm Gwaith Achos yn asesu a ydyn nhw yn y sefyllfa orau i ddarparu cymorth, neu a fyddai sefydliad neu asiantaeth bartner mewn lle gwell i roi help a chymorth. Rwy'n defnyddio prosesau cwyno a datrys sy'n bodoli'n barod, lle bo'n bosib, i leihau'r gofynion gweithdrefnol a manteisio i'r eithaf ar effaith a dysgu. Rwy'n ofalus i beidio â dyblygu gwaith pobl eraill, gan wneud atgyfeiriadau i asiantaethau eraill os ydyn nhw mewn sefyllfa well i gynorthwyo. Lle bo angen, rwy'n cefnogi asiantaethau eraill i gryfhau eu gallu i gefnogi unigolyn.

Os yw fy Nhîm Gwaith Achos yn y sefyllfa orau i roi cymorth, bydd gweithiwr achos yn trafod gyda'r person hŷn a / neu ei gynrychiolydd, natur y gefnogaeth sydd ei hangen er mwyn sicrhau bod eu pryderon yn cael sylw.

Bydd fy nhîm wastad yn gofyn am ganiatâd ysgrifenedig y person hîn i weithredu ar eu rhan (lle bo'n bosibl) neu gan y rhai sy'n gallu rhoi caniatâd ar eu rhan (mewn achosion lle nad yw'r person hîn yn gallu gwneud hynny neu heb y gallu meddyliol i wneud hynny).

Rwy'n darparu cymorth a chefnogaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd, yn dibynnu ar yr hyn mae'r unigolyn ei angen a'i eisiau. Gall hyn amrywio o ddarparu gwybodaeth a chyngor wedi'u teilwra i alluogi'r person i gymryd camau eu hunain, i weithredu'n llawn ar eu rhan. Rwy'n ystyried eu dymuniadau bob tro wrth weithio ar eu rhan.

Weithiau, bydd rhywun yn cysylltu â fi ynglŷn â digwyddiad neu ddigwyddiad honedig sydd mor ddifrifol fel ei fod yn teilyngu defnyddio fy mhwerau cyfreithiol penodol, fel fy Adolygiad i gau cartref gofal (a gynhaliwyd o dan Adran 3 o'r Ddeddf) neu fy Adolygiad i drefniadau chwythu'r chwiban Awdurdod Lleol (a gynhaliwyd o dan adran 5 o'r Ddeddf). Rwyf hefyd wedi defnyddio pwerau cyfreithiol penodol i roi cymorth i unigolion sy'n ymwneud ag apêl tribiwnlys ac yn ystod achosion yn Llys y Crwner.

Mewn rhai achosion, mae'r materion y mae fy nhîm Gwaith Achos yn delio â nhw yn ymwneud â phlisma neu'r system cyfiawnder troseddol. Er bod hwn yn fater y tu hwnt i'm cylch gwaith, mae gennyf berthynas waith ardderchog gyda phedair o heddluoedd Cymru sy'n fy ngalluogi i dynnu eu sylw at unrhyw faterion a all effeithio ar fywydau pobl hîn yng Nghymru ac mae'n darparu porth i ystyried neu gyflawni canlyniadau priodol.

Gofynnir i bob person sy'n derbyn cymorth roi adborth i fi ynglŷn â sut wnaethom ni eu cefnogi. Defnyddir y wybodaeth hon i gefnogi gwelliant parhaus i'r gefnogaeth a ddarparwn, gydag adolygiad ffurfiol bob chwarter.

Yn ychwanegol at hyn, mae fy Nhîm Gwaith Achos yn aml yn derbyn adborth anffurfiol a negeseuon o ddiolch. Mae ambell ddyfyniad i'w weld isod:

“Diolch am eich holl gefnogaeth, dyma'r tro cyntaf i fi weld fy nhad yn gwenu ers misoedd.”

“Galla'i ddim diolch ddigon i chi. Heb eich help, byddwn yn dal i fynd o gwmpas mewn cylchoedd biwrocrataidd.”

“Ro'dd eich cefnogaeth yn amhrisiadwy ac heb ei ail. Dywedwyd wrtha'i fod eich ymyrraeth eisoes wedi cael effaith ar agwedd yr awdurdod lleol at bobl hîn eraill sy'n cael eu hunain mewn sefyllfa debyg. Byddai'n ddyledus i chi am byth.”

“Dwi’n falch iawn am y cymorth ry’ch chi wedi’i roi i fi. Rwy’n teimlo’n ddiogel nawr bod rhywun fel chi ar gael i’n helpu. Diolch am eich help”.

“Dwi’n dal i gredu y gallwch fynd i’r afael ag unrhyw broblem, bach neu fawr. A ry’ch chi’n dyfalbarhau nes i’r broblem gael ei datrys. Parhewch i fod mor amyneddgar a dymunol wrth i chi ddelio â materion. Diolch a dymuniadau gorau.”

“Mae’n rhoi pleser mawr i fi roi rhywfaint o adborth positif i rywun o’r diwedd. Ro’n ni mewn cyfyng-gyngor a ddim yn gwybod ble i droi. Mewn byr amser, mae pethau’n symud yn gyflymach a dwi’n cael y wybodaeth sydd ei hangen arna’i, diolch i’r Comisiynydd Pobl Hŷn a [gweithiwr achos] yn benodol. Diolch yn fawr.”

“Mawredd mawr!” Dwi wrth fy modd! Galla’i ddim diolch ddigon i chi; rydych chi wedi bod yn graig o gefnogaeth. Byddai’n cysgu am y tro cyntaf ers misoedd ac mae’r diolch i chi am hynny; ry’ch chi’n seren. Ry’ch chi wedi fy helpu yn fawr [gweithiwr achos] ac ry’ch chi wedi adfer fy ffydd mewn gwasanaethau cyhoeddus.”

“Galla’i ddim diolch ddigon i chi... ry’ch chi hynod o effeithlon! Dwi heb gyrraedd unrhyw le am 6 wythnos ac un alwad ffôn ac o fewn ychydig funudau, dwi wedi cael help. Diolch yn fawr iawn.”

“Unwaith eto, diolch am bopeth ac ry’n ni’n dymuno’r gorau i chi achos dwi’n gwybod, oni bai amdanoch chi, y byddwn yn dal i ymladd a galla’i ddim meddwl beth neu ble fyddai mam a dad. Ein holl gariad.”

“Hoffwn ddiolch yn gyntaf am y gwaith ry’ch chi wedi’i gyflawni i ddatrys y ‘penderfyniad gwael’ a wnaethpwyd heb gynnwys tenantiaid [cynllun tai] ... gyda chymorth [gweithiwr achos] a’i thîm, cafodd y problemau eu datrys yn fuan, a nawr, diolch i chi, gallwn ni ddechrau byw bywyd normal unwaith eto.”

“Dim ond nodyn i ddweud bod y cyngor a dderbyniais wrthoch chi a’ch swyddfa wedi bod o gymorth mawr. Mae fy awdurdod lleol wedi addo dechrau adolygiad o’r gwasanaeth bws penodol hwnnw i gael mynediad gwell i feddygfa. Felly mae’n edrych yn bositif. Mae’r gair wedi mynd ar led yn y pentref ac mae pawb wrth eu bodd. Mae pawb yn dweud Diolch.”

Themâu sy'n deillio o'm Gwaith Achos

Yn ogystal â darparu cymorth a chefnogaeth uniongyrchol i bobl hŷn, rwyf hefyd yn defnyddio fy ngwaith achos i nodi materion a themâu cyffredin sy'n rhedeg ar draws eu profiadau.

Mae gwneud hyn nid yn unig yn caniatáu i fi roi tystiolaeth gref i gyrff cyhoeddus ynglŷn â'r ffyrdd y mae angen i arferion newid er mwyn gwella profiadau pobl hŷn, ond hefyd i gefnogi fy ngwaith ehangach i ddylanwadu ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, polisi Llywodraeth Cymru ar lefel genedlaethol a'r dystiolaeth y gallaf ei chynig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae pawb sy'n cysylltu â fi yn wynebu amgylchiadau unigryw. Mae pobl yn cysylltu am ystod eang o faterion, gan gynnwys triniaeth a gofal mewn ysbytai a gofal preswyl, gan amrywio o fynediad at fwyd a'r ffyrdd y bu pobl farw; materion ariannol fel anghydfod ariannu ar draws sefydliadau, codi ffioedd anghywir, peidio â rhoi hawliau ariannol; materion tai sy'n amrywio o fynediad i addasiadau yn y cartref, dadfeddiannu a chyplau yn cael eu gwahanu; penderfyniadau lles gorau ar ystod eang o faterion; amseroedd aros am wasanaethau, cymhorthion ac addasiadau; a diogelwch yn y cartref, cam-drin domestig a'r methiant i erlyn.

Er bod y bobl sy'n cysylltu â fi yn wynebu materion unigryw a phersonol, mae themâu cyffredin yn cuddio tu ôl i'w profiadau a'u pryderon. Y themâu rwyf wedi'u nodi yw:

- Yn aml, gall polisiâu a gweithdrefnau cyrff cyhoeddus fod yn gymhleth ac yn heriol i bobl sydd ddim yn gyfarwydd â nhw, gan ddwysáu'r straen ac achosi pryder mawr. Gall prosesau anhyblyg a diffyg gweithio integredig greu rhwystrau i sicrhau'r canlyniadau a ddymunir. Gall hynny adael i bobl deimlo bod y prosesau wedi'u cynllunio i fod o fudd i sefydliadau yn hytrach nag unigolyn. Mae pobl hŷn yn dweud wrthyf nad yw prosesau a gweithdrefnau sefydliadau yn glir nac yn dryloyw, ac y gall materion y gellir ac y dylid eu datrys yn gyflym, fynd ymlaen am gyfnodau annerbyniol o hir.
- Mae cyfathrebu yn aml yn aneffeithiol ac mae prosesau ymgynghori'n teimlo'n ddi-ystyr, gan adael i unigolion deimlo'n ddi-rym ac wedi'u hanwybyddu.
- Yn aml, nid yw cyrff cyhoeddus a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn deall effaith eu penderfyniadau ar fywydau pobl. Yn benodol, mae'r graddau y mae'r ffordd y gwneir penderfyniadau yn gallu arwain at unigolion yn colli eu hunaniaeth a'u hunan-werth. Yn aml, mae pobl hŷn yn dweud wrthyf nad ydyn nhw'n cael eu trin fel partneriaid cyfartal, ychydig o gyfathrebu sydd

yna a'u bod yn teimlo fel pe baen nhw'n cael eu cau allan o benderfyniadau am eu bywydau. Mae'r materion sy'n bwysig i bobl hŷn neu eu teuluoedd, yn cael eu rhoi o'r neilltu gan weithwyr proffesiynol, sy'n arwain at bobl hŷn yn teimlo eu bod wedi'u heithrio oddi wrth y prosesau gwneud penderfyniadau.

- Ychydig iawn o ddealltwriaeth sydd o hawliau dynol neu ffyrdd ymarferol y caiff yr hawliau eu rhoi ar waith, er gwaetha'r dyletswyddau a roddir ar gyrff cyhoeddus o dan y Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hyn yn arwain at wneud penderfyniadau gwael ac yn rhoi pobl sy'n agored i niwed mewn perygl o niwed. Mae gwrthod hawl i barch at fywyd teuluol, rhyddid i ymgysylltu, yn ogystal â thriniaeth annynol a diraddiol, i gyd yn rhan o fy ngwaith achos.
- Mae cyrff cyhoeddus yn aml yn camddeall beth yw camdriniaeth neu esgeulustod troseddol ac nid ydynt bob tro yn cyfeirio'r achosion hyn i'r heddlu yn y ffordd gywir. Er nad yw pobl hŷn wastad eisiau mynd ar drywydd ymchwiliad troseddol, dydyn nhw ddim eisiau'r opsiwn o gael eu heithrio heb ystyriaeth briodol chwaith. Mae awydd pobl hŷn am gyfiawnder ac atebolrwydd yn thema gyffredin sy'n rhedeg drwy'r materion a godwyd gyda'm Tîm Gwaith Achos, yn ogystal ag awydd nad oes rhaid i bobl eraill ddiodef yr un ffawd.

Mae'n amlwg o'r themâu hyn bod anghydbwysedd pŵer sylweddol yn wynebu unigolion wrth godi materion a chwynion gyda chyrff cyhoeddus. Dyma un o'r rhesymau y mae rôl eiriolaeth annibynnol mor hanfodol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae Eiriolaeth Annibynnol yn rhoi cymorth i bobl ddeall y dewisiadau sydd ar gael iddyn nhw, yn ogystal â gwneud penderfyniadau a chynrychioli eu profiadau, eu dymuniadau a'u teimladau i gyrff sy'n gwneud penderfyniadau. Ni ddylid tanbriso gwerth eiriolaeth annibynnol wrth ddiogelu pobl hŷn rhag niwed.

Mae hefyd yn glir nad yw cyrff cyhoeddus yn ddigon da wrth ddysgu o'u camgymeriadau neu ddefnyddio lleisiau a phrofiadau pobl i ategu a gyrru gwelliant parhaus o fewn y gwasanaeth.

Astudiaethau Achos

Mae fy ngwaith achos yn adlewyrchu'r ystod eang o faterion sy'n wynebu pobl hŷn a'u teuluoedd ar draws Cymru. Mae'r achosion a amlinellir isod yn dangos yr effaith gafodd fy Nhîm Gwaith Achos wrth wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl hŷn a'u teuluoedd.

Mae'r achosion hyn yn cynrychioli sampl fach o'r nifer o achosion y mae pobl hŷn a'u teuluoedd yn tynnu fy sylw atyn nhw'n rheolaidd. Mewn nifer o'r achosion hyn, rwy'n credu fy mod wedi gallu gwneud gwahaniaeth wrth wella bywydau pobl hŷn. Serch hynny, mae'n siomedig bod angen fy ymyrraeth neu fy nghefnogaeth i alluogi'r gwahaniaethau positif hyn. Rwy'n disgwyl i bob sefydliad sy'n ymwneud â'r mathau o sefyllfaoedd a amlygir yn y llyfr achos hwn, i adlewyrchu a gweithredu arnyn nhw'n briodol.

Mae enwau'r unigolion yn yr astudiaethau achos isod wedi'u newid i ddiogelu eu hunaniaeth.

Mrs Higgins – Anghydfod dros benderfyniadau Buddiannau Gorau i ryddhau unigolyn i gartref nyrsio

Cysylltodd gwasanaeth eirioli annibynnol â'm swyddfa i ofyn am fy nghymorth gan nad oedden nhw'n gallu darparu'r cymorth angenrheidiol ar gyfer Mr Higgins oherwydd cyfyngiadau yn eu trefniadau cyllido.

Yn absenoldeb unrhyw gefnogaeth arall, cysylltodd Uwch Weithiwr Achos â Mr Higgins i drafod ei sefyllfa. Eglurodd Mr Higgins fod ei wraig (Mrs Higgins) wedi bod yn yr ysbyty ers cryn amser ar ôl cael strôc a dywedwyd yn ddiweddar ei bod yn barod, yn feddygol, i'w rhyddhau.

Er mwyn cael ei rhyddhau'n ddiogel o'r ysbyty, nododd asesiad fod angen goruchwyliaeth un-i-un, 24 awr y dydd ar Mrs Higgins i ddiwallu ei hanghenion. Trafododd Mr Higgins a'i ferch y sefyllfa gyda staff yr ysbyty a rhoddwyd pob arwydd iddyn nhw y byddai Mrs Higgins yn gallu dychwelyd adref gyda phe cyn cymorth fyddai'n cael ei ariannu'n llawn gan y Bwrdd Iechyd dan Ofal Iechyd Parhaus y GIG (CHC).

Barnwyd nad oedd gan Mrs Higgins y gallu i gael ymwybyddiaeth o'i hanghenion iechyd a gofal, a phenderfynodd Tîm Aml-ddisgyblaethol y dylai gael ei rhyddhau i gartref nyrsio, gyda'i chynnydd yn cael ei fonitro gan y Bwrdd Iechyd. Roedden nhw'n bwriadu adolygu achos Mrs Higgins ar ôl cyfnod o chwe wythnos, gyda'r bwriad o adael iddi dychwelyd adref bryd hynny.

Yn dilyn yr asesiad MDT, cynhaliwyd cyfarfod Buddiannau Gorau a daethpwyd i'r casgliad nad oedd digon o adnoddau ar gael i'r Bwrdd Iechyd ddarparu'r gefnogaeth un-i-un y byddai ei hangen ar Mrs Higgins pe byddai'n dychwelyd adref. Ni dderbyniwyd dadl Mr Higgins, sef y gallai lenwi unrhyw ddiffygion yn y gofal un-i-un, gan ddadlau nad oedd wedi darparu digon o dystiolaeth i ddangos y gallai gefnogi Mrs Higgins yn ddigonol a lleihau'r risgiau posibl i'w diogelwch yn absenoldeb staff y Bwrdd Iechyd. O ganlyniad, daeth y cyfarfod Buddiannau Gorau i'r casgliad y dylai Mrs Higgins gael ei rhyddhau i gartref nyrsio gyda chymorth un-i-un ychwanegol yn cael ei gomisiynu yn ôl yr angen.

Fel cynrychiolydd Mrs Higgins, eglurodd Mr Higgins fod ei wraig wedi mynegi barn gref am gartrefi nyrsio yn dilyn marwolaeth perthynas, ac y byddai'n anhapus iawn i fynd i'r math yma o le. Dywedodd ei fod e a'i deulu yn barod i ddarparu'r oruchwyliaeth ychwanegol pan na allai staff y Bwrdd Iechyd ddarparu'r gofal angenrheidiol, a dywedodd ei fod eisoes yn rhoi cryn dipyn o gefnogaeth i staff yr ysbyty wrth ddarparu gofal un-i-un i'w wraig. Roedd yn gallu tawelu meddwl ei wraig pan oedd hi'n teimlo'n ddryslyd a'i helpu i fynd i'r toiled pan oedd angen.

Teimlai Mr Higgins, yn hytrach na rhoi ystyriaeth ofalus i'w rhyddhau i ddod gartref, roedd y Bwrdd Iechyd wedi seilio eu penderfyniad ar adnoddau yn hytrach na'r hyn oedd ar gael, heb ystyried anghenion ei wraig.

Camau gweithredu a gymerwyd

Cysylltodd Uwch Weithiwr Achos â'r Bwrdd Iechyd a siaradodd â'r person oedd yn gyfrifol am achos Mrs Higgins. Ar ôl ystyried sefyllfa'r Bwrdd Iechyd, cysylltodd y Gweithiwr Achos â Mr Higgins unwaith eto i drafod y wybodaeth a ddarparwyd. Cytunodd y gweithiwr achos i ysgrifennu at y Bwrdd Iechyd i ofyn am fwy o eglurder ar rai elfennau o achos Mrs Higgins, yn enwedig ynglŷn â Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS), asesiadau galluedd meddyliol, y broses o wneud penderfyniadau Buddiannau Gorau a chydweithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol i ddiwallu ei hanghenion.

Ar ôl gohebu, gwahoddodd y Bwrdd Iechyd Mr Higgins a'i ferch i gyfarfod ac estynnwyd gwahoddiad i'r Uwch Weithiwr Achos. Cefnogodd yr Uwch Weithiwr Achos y teulu i gwestiynu proses y Bwrdd Iechyd o wneud penderfyniadau, ond daeth y cyfarfod i'r casgliad, gyda'r Bwrdd Iechyd o'r un farn â'i sefyllfa wreiddiol, y dylai Mrs Higgins gael ei rhyddhau i gartref nyrsio.

Yn naturiol, roedd Mr Higgins yn siomedig na chafwyd unrhyw gynnydd tuag at ganlyniad oedd yn dderbyniol iddo a phenderfynodd ar ddiwedd y cyfarfod i gymryd rhywfaint o amser i ystyried yr opsiynau oedd ar gael iddo. Un opsiwn oedd cymryd cyngor cyfreithiol, gyda'r bwriad o wneud cais i'r Llys Gwarchod

er mwyn herio'r penderfyniad Buddiannau Gorau. Roedden nhw'n ymwybodol, fodd bynnag, y byddai hyn yn creu oedi pellach ac y gallai gael effaith niweidiol ar lesiant Mrs Higgins. Y dewis arall oedd derbyn sefyllfa'r Bwrdd Iechyd ac ymgysylltu â'r broses o ddod o hyd i gartref nyrsio.

Y gwahaniaeth a wnaed

Er bod y teulu'n ystyried eu hopsiynau, gofynnodd y Bwrdd Iechyd am asesiad gallu arall o Mrs Higgins. Cadarnhawyd, er nad oedd ganddi'r gallu meddyliol o ran ei hiechyd a'i gofal, roedd hi'n cadw swyddogaeth wybyddol mewn mannau eraill. Felly penderfynwyd na fyddai cartref nyrsio yn briodol wedi'r cyfan. Cafwyd cyfarfod MDT arall a nodwyd adnoddau a oedd yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i ddarparu'r rhan fwyaf o'r gefnogaeth un-i-un i Mrs Higgins gartref. Cytunodd y teulu i ddiwallu gweddill anghenion gofal Mrs Higgins, ac wythnos yn ddiweddarach, fe aeth adref. Canlyniad na fyddai wedi'i gyflawni heb gefnogaeth ac ymyrraeth fy Uwch Weithiwr Achos.

Aeth pethau'n hwylus wrth symud Mrs Higgins o'r ysbyty, ac mae hi bellach yn mwynhau treulio amser gyda'i theulu yng nghysur ei chartref ei hun, gyda chymorth amrywiaeth o wasanaethau ac asiantaethau.

Mr a Mrs Pearson - Grymuso teulu i herio penderfyniad oedd yn atal pâr priod rhag byw gyda'i gilydd

Cysylltodd merch Mr a Mrs Pearson â'm swyddfa gan ei bod hi'n poeni bod ei rhieni, a oedd yn eu wythdegau canol, yn byw ar wahân oherwydd eu hanghenion gofal gwahanol.

Roedd Mr Pearson yn gaeth i'w wely ac yn byw mewn cartref nyrsio. Roedd Mrs Pearson yn dal i fyw yn ei chartref ei hun ond roedd ei diagnosis dementia yn gwneud ei sefyllfa bob dydd yn hynod o heriol, gan iddi syrthio nifer o weithiau a theimlo'n fwyfwy ynysig.

Eglurodd eu merch fod gwahanu ei rhieni yn cael effaith ddinistriol ar eu llesiant a'u hiechyd meddwl. Roedden nhw'n briod ers dros 60 mlynedd, ac roedd byw ar wahân i'w gŵr yn gwneud i Mrs Pearson boeni ei fod wedi marw. O ganlyniad, roedd hi'n ffonio'r cartref nyrsio sawl gwaith, ddydd a nos, yn aml yn eu dagrau, yn gofyn amdano. Nid oedd eu merch yn gallu trefnu ymweliadau rheolaidd rhwng y ddau oherwydd ei llwyth gwaith ei hun.

Roedd Mr a Mrs Pearson yn obeithiol y gellid mynd i'r afael â'r sefyllfa pan agorodd cyfleuster Gofal Ychwanegol newydd yn yr ardal. Gyda chefnogaeth eu gweithiwr cymdeithasol, gwnaethant gais ffurfiol i symud i'r cyfleuster er mwyn iddyn nhw allu byw gyda'i gilydd unwaith eto.

Er mawr siom, cafodd y cais ei wrthod gan banel yr Awdurdod Lleol ar sail y ffaith y byddai Mrs Pearson o dan anfantais pe bai'n cael ei thynnu oddi wrth amgylchedd cyfarwydd ei chartref ac y byddai Mr Pearson yn 'well' yn byw yn y cartref gofal. Gwnaed y penderfyniad hwn er gwaetha'r ffaith i aseswyr gofal y cynllun Gofal Ychwanegol gadarnhau cyn y cais y gallen nhw fodloni anghenion gofal y ddau.

Teimlai Mr a Mrs Pearson bod y penderfyniad hwn yn annheg. Roedden nhw'n poeni bod dementia Mrs Pearson wedi gwaethygu'n ddramatig oherwydd y diffyg rhyngweithio cymdeithasol ac nad oedd anghenion emosiynol Mr Pearson wedi'u hystyried.

Roedd gweithiwr cymdeithasol Mr Pearson yn parhau'n gefnogol a cheisiodd herio'r penderfyniad hwn, ond ni allai ddod o hyd i unrhyw wybodaeth ynglŷn â sut y gallen nhw herio penderfyniad y panel.

Camau gweithredu a gymerwyd

Gyda chaniatâd y cwpwl, cysylltodd fy Nhîm Gwaith Achos â'r Awdurdod Lleol i dynnu sylw at ba mor allweddol oedd hi i ystyried yr holl opsiynau fyddai'n

caniatáu i Mr a Mrs Pearson fyw gyda'i gilydd eto. Gofynnodd fy ngweithiwr achos am eglurhad ynghylch a oedd ystyriaeth wedi'i roi i farn staff y cartref nyrsio presennol a'r cynllun Gofal Ychwanegol y gellid bodloni anghenion Mr Pearson o dan y cynllun.

Gofynnodd fy Nhîm Gwaith Achos hefyd am fanylion ynglŷn â sut y gallai'r cwpwl apelio yn erbyn y penderfyniad hwn, gan nad oedd y gweithiwr cymdeithasol wedi gallu cael y wybodaeth hon.

Y gwahaniaeth a wnaed

Ymatebodd Pennaeth y Gwasanaeth i ymholiadau fy Nhîm Gwaith Achos, gan gydnabod a derbyn y pryderon a godwyd. Cadarnhawyd bod Cadeirydd newydd wedi'i benodi i'r panel oedd yn gyfrifol am benderfynu a oedd lleoliad o'r fath yn ymarferol.

O ganlyniad i ymyrraeth fy nhîm, roedd yr Awdurdod Lleol a'r Gymdeithas Dai oedd yn rheoli'r cynllun Gofal Ychwanegol wedi ymrwymo i gynnal asesiad ar y cyd i ailystyried cais y cwpwl, a dywedwyd eu bod yn ystyried opsiynau eraill a allai fod ar gael i'r cwpwl. Yn y cyfamser, trefnodd y gweithiwr cymdeithasol i weithiwr cymorth drefnu i'r cwpwl gwrdd yn wythnosol.

Yn y pen draw, roedd y pâr yn gallu dod nôl at ei gilydd, ac maen nhw bellach yn byw gyda'i gilydd mewn cartref gofal sy'n gallu bodloni eu hanghenion.

Diolchodd y cwpwl a'u merch, yn ogystal â'u gweithiwr cymdeithasol, i'm Tîm Gwaith Achos. Cyn fy ymyrraeth i, doedden nhw ddim yn gallu cael y wybodaeth angenrheidiol, ac felly doedd dim modd herio penderfyniad y panel.

Mrs Ellis – Methiant i ymchwilio i droseddau posibl yn erbyn oedolyn bregus hŷn

Cysylltodd Aelod Cynulliad â fi drwy gyfeirio at bryderon etholwraig, Mrs Duvall, a dynnodd ei sylw atyn nhw. Am nifer o flynyddoedd, roedd Mrs Duvall wedi delio â materion Mrs Ellis, cyfaill oes 94 mlwydd oed, oedd yn eithriadol o fregus ac yn byw mewn cartref nyrsio.

Roedd Mrs Ellis wedi rhannu nifer o bryderon gyda Mrs Duvall ynglŷn â natur y gofal a dderbyniodd yn y cartref ac, yn fwyaf arwyddocaol, dywedodd:

- Ar un achlysur, bu'n rhaid newid ei cathetr yn hwyr y nos. Cymerodd y ddau/ ddwy nyrs bron i ddwy awr i'w newid oherwydd golau gwael. Achosodd yr oedi hwn iddi fod yn ofidus ac roedd hi'n boenus iawn.
- Ar achlysur arall, cwynodd ei bod wedi cael ei thrin yn arw gan nyrs oedd wedi tynnu ei choesau ar wahân a gwthio'r cathetr yn galed i'w phledren gan achosi cryn boen a barodd am dros wythnos. Dywedodd am y digwyddiad hwn ond ni ddywedwyd wrthi beth oedd y canlyniad.
- Collodd reolaeth o'i phledren a phan ganodd y gloch i alw am help, roedd y staff a fynychodd yn arw ac fe'i brifwyd. Fe wnaethon nhw newid y pad ond ni newidiwyd y gynfas waelod, gan ei gadael ar ddillad gwely gwlyb am beth amser.

Ers hynny, mae Mrs Ellis wedi gadael y cartref nyrsio dan sylw ac wedi setlo yn ei chartref newydd. Teimlai bod yr amser yn iawn i godi'r materion hyn yn fwy ffurfiol. Ar gais Mrs Ellis, rhannodd Mrs Duvall y wybodaeth gyda'i Aelod Cynulliad, a gyfeiriodd y pryderon i'm swyddfa i.

Camau gweithredu a gymerwyd

Cyfeiriwyd yr honiadau annymunol hyn gan fy Nhîm Gwaith Achos at yr Awdurdod Lleol ar unwaith fel pryder diogelu, lle roeddwn yn disgwyl i'r Awdurdod Lleol ei ystyried fel atgyfeiriad 'oedolyn mewn perygl'. Mae rhwymedigaeth gyfreithiol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i'r awdurdod lleol wneud ymholiadau i'r pryderon a godir o fewn saith niwrnod.

Er gwaethaf derbyn cydnabyddiaeth gynnar o'r atgyfeiriad, cymerodd nifer o alwadau ffôn a negeseuon e-bost gan fy nhîm gwaith achos i ddarganfod sut roedd yr achos hwn yn mynd yn ei flaen. Ni chafodd fy nhîm sicrwydd fod yr ymholiadau yn cael eu trin o fewn yr amserlen benodol a derbyniwyd ymateb gan yr awdurdod lleol fis yn ddiweddarach.

Yna eglurwyd nad oedd y pryderon a godwyd yn cael eu trin o dan weithdrefnau diogelu oherwydd, gan ei bod wedi symud i gartref gofal arall, nid ystyrid bod Mrs Ellis bellach mewn perygl. Yn hytrach, roedd Nyrs Datblygu Practis wedi delio â'r materion a godwyd, a oedd wedi'i hanfon i'r cartref gan y Bwrdd Iechyd. Roedd hyn, yn ogystal â defnydd y cartref o'u polisïau disgyblu mewnol, wedi rhoi'r sicrwydd i'r Awdurdod Lleol yr ymdriniwyd â'r mater yn briodol.

Serch hynny, nid oeddwn yn credu bod yr ymateb hwn yn ddigonol gan na allwn fod yn hyderus bod y posibilrwydd o drosedd, fel camdriniaeth bwriadol, ymosodiad neu gamymddwyn meddygol, neu atgyfeiriad i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, wedi'i asesu'n iawn neu ei ystyried yn llawn. Er nad yw pob math o ofal gwael yn fater troseddol, credais nad oedd ystyriaeth briodol wedi ei rhoi i asesu hyn. Felly, cyfeiriodd fy Nhîm Gwaith Achos y pryderon hyn yn uniongyrchol at yr heddlu.

Yn dilyn yr atgyfeiriad, penderfynodd yr Heddlu nad oedd y mater wedi'i ystyried yn ddigonol gan y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol: nid oedden nhw wedi cyfweld â Mrs Ellis yn uniongyrchol ac wedi dod i benderfyniad yn seiliedig ar adborth Mrs Duvall, ac ystyriwyd bod yr adborth hwnnw yn anecdotaidd. Yn dilyn hyn, cyfarfu'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd â Mrs Ellis i siarad â hi'n uniongyrchol am yr honiadau. Unwaith eto, roedden nhw o'r farn bod y materion a godwyd eisoes wedi cael sylw priodol a chaewyd y mater unwaith eto heb ei atgyfeirio i'r heddlu.

Fodd bynnag, roedd Mrs Ellis dal yn bendant ei bod am siarad â swyddog yr heddlu ynglŷn â'r mater hwn.

Wrth barhau i boeni nad oedd yr heddlu wedi ystyried yn uniongyrchol weithredoedd troseddol posib o ymosod a chamdriniaeth bwriadol, fel y disgrifiwyd gan Mrs Ellis, ysgrifennais at uwch swyddog yr heddlu i wneud y farn hon yn glir. Cefais ymateb yn nodi y byddai Mrs Ellis yn cael ei chyfweld yn uniongyrchol gan yr heddlu, gan fod y penderfyniad blaenorol i beidio â gwneud hynny wedi bod yn anghywir.

Y gwahaniaeth a wnaed

Sicrhaodd fy ymyrraeth fod Mrs Ellis yn cael ei chyfweld gan swyddog yr Heddlu.

Croesawodd Mrs Ellis y ffaith bod ganddi gyfle i esbonio wyneb yn wyneb i'r heddlu ynglŷn â'r hyn ddigwyddodd iddi tra roedd hi'n byw yn y cartref, er mwyn iddyn nhw benderfynu a oedd sail dros erlyniad troseddol.

Yn ystod y cyfarfod hwnnw, a gynhaliwyd naw mis ar ôl i'r digwyddiadau ddigwydd, gwrandawodd swyddog yr heddlu ar eiriau Mrs Ellis o'r hyn ddigwyddodd. Yn dilyn adolygiad o'r achos, daeth y swyddog i'r casgliad nad

oedd y digwyddiadau'n bodloni'r trothwy atgyfeirio i Wasanaeth Erlyn y Goron. Esboniodd y swyddog fod cynrychiolydd o'r Bwrdd Iechyd wedi ymweld â'r cartref ac wedi cadarnhau o'r nodiadau gofal bod staff y cartref gofal wedi ceisio ffitio cathetr o'r maint anghywir, a fyddai wedi egluro'r boen y bu'n rhaid i Mrs Ellis ei oddef.

Er na ddaethpwyd ag achos yn erbyn unrhyw un, nod Mrs Ellis oedd sicrhau bod y mater yn cael ei gymryd o ddifrif, a bod yr heddlu yn rhoi sicrwydd iddi bod y mater wedi'i ymchwilio. Roedd hi'n llawer hapusach a dywedodd Mrs Duvall ei bod hi'n teimlo rhyddhad bod ei phryderon wedi'u cymryd o ddifrif o'r diwedd, ac wedi'u harchwilio'n drylwyr ac yn annibynnol.

Mr Powell – anawsterau wrth fynegi pryder ynglŷn â diogelu mewn ysbyty

Cysylltodd Mr Powell â'm swyddfa yn gofyn am gymorth ar ran ei fam-yng-nghyfraith, menyw 86 oed â dementia, oedd yn yr ysbyty ar y pryd.

Roedd Mr Powell yn poeni bod ei fam-yng-nghyfraith wedi datblygu briwiau pwysedd ers cyrraedd yr ysbyty. Roedd yn gwybod nad oedd matres llif aer ei fam-yng-nghyfraith wedi bod yn gweithio'n iawn yn ystod yr wythnos flaenorol ac nid oedd yn glir pa mor gyflym y cafodd ei drwsio. Roedd yn poeni y gallai'r briwiau pwysedd fod yn brawf bod ei fam-yng-nghyfraith wedi'i hesgeuluso yng ngofal yr ysbyty ac roedd eisiau gwneud atgyfeiriad diogelu.

Roedd Mr Powell eisoes wedi cysylltu â'r Awdurdod Lleol, a rhoddwyd gwybod iddo, gan fod y mater wedi codi tra bod ei fam-yng-nghyfraith yn yr ysbyty, bod angen iddo wneud yr atgyfeiriad drwy'r Bwrdd Iechyd. Nid oedd Mr Powell wedi derbyn manylion cyswllt priodol yn y Bwrdd Iechyd ac ni allai ddod o hyd i unrhyw beth ar wefan y Bwrdd Iechyd ynglŷn â sut i atgyfeirio'r achos nac at bwy. Roedd ar goll ac angen help.

Camau gweithredu a gymerwyd

Dywedodd Uwch Weithiwr Achos fod y darpariaethau diogelu yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn golygu y disgwylir i Awdurdodau Lleol yng Nghymru arwain yr holl atgyfeiriadau diogelu. Felly, cynghorwyd Mr Powell i fynd yn ôl at yr Awdurdod Lleol, gan ei gwneud hi'n glir ei fod am wneud yr atgyfeiriad drwyddyn nhw.

Cymerodd bedwar diwrnod gwaith arall i rywun o'r Awdurdod Lleol alw Mr Powell yn ôl i gymryd manylion yr atgyfeiriad, a chafodd wybod y byddai'r pryderon yn destun ymchwiliad diogelu.

Gwellodd cyflwr mam-yng-nghyfraith Mr Powell a chafodd ei rhyddhau i gartref gofal. Yn anffodus, fodd bynnag, bu farw tair wythnos yn ddiweddarach.

Bu rhai misoedd ers i'r atgyfeiriad diogelu cychwynnol gael ei wneud ac nid oedd Mr Powell wedi clywed dim mwy am yr ymchwiliad diogelu. Yn amlwg, roedd Mr Powell yn galaru yn sgil ei golled, ond nid oedd am oedi cyn mynd i'r afael â'r mater.

Felly, gofynnwyd am ddiweddariad ar yr ymchwiliad ar ran y teulu. Er bod yr ymchwiliad wedi'i basio i'r arweinydd diogelu yn y Bwrdd Iechyd, daeth yn amlwg na chafodd y mater ei neilltuo i'w ymchwilio am dros bedwar mis.

Y gwahaniaeth a wnaed

Nododd ymyrraeth fy Nhîm Gwaith Achos fod nifer o ddigwyddiadau annisgwyl, yn anffodus, wedi arwain at yr oedi wrth weithredu'r broses ddiogelu. Serch hynny, roedd fy Nhîm Gwaith Achos yn gallu cael sicrwydd gan y Bwrdd Iechyd y byddai'r ymchwiliad i'r gofal y derbyniodd mam-yng-nghyfraith Mr Powell yn yr ysbyty yn cael ei gwblhau heb unrhyw oedi pellach.

Roedd fy Nhîm Gwaith Achos yn gallu rhoi sicrwydd i Mr Powell bod cynnydd yn cael ei wneud. O fewn cyfnod byr, derbyniodd gadarnhad bod yr ymchwiliad wedi'i gwblhau a bod yr honiad o esgeulustod wedi'i gadarnhau fel y profwyd. Byddai adroddiad yr ymchwiliad yn cael ei rannu'n ffurfiol mewn Cynhadledd Achos er mwyn sicrhau yr aethpwyd i'r afael â phob un o'r meysydd pryder a bod y teulu yn fodlon.

Teimlodd Mr Powell yn fwy hyderus fod ei bryderon wedi'u cymryd o ddifrif ac roedd yn ddiolchgar am yr ymyrraeth a'r gefnogaeth a dderbyniodd gan fy Nhîm Gwaith Achos.

Mae hwn yn un o nifer o achosion lle mae pobl hŷn a'u teuluoedd wedi mynegi pryderon ynglŷn ag achosion diogelu mewn ysbytai.

Mrs Simons – Lleihad annisgwyl i'r cymorth un-i-un yn y pecyn Gofal Iechyd Parhaus

Cysylltodd Aelod Cynulliad â'm Tîm Gwaith Achos, lle roedd etholwr, Mr Simons, angen cymorth a chefnogaeth. Eglurodd Mr Simons fod dementia cynnar ar ei wraig 61 mlwydd oed, a'i bod yn byw mewn cartref nyrsio.

Ariannwyd y gofal a dderbyniodd Mrs Simons gan Ofal Iechyd Parhaus y GIG (CHC) ac ers iddi fynd mewn i'r cartref, roedd hi wedi bod yn derbyn gofal un-i-un bob dydd. Serch hynny, heb ymgynghori â Mr Simons, lleihawyd yr elfen un-i-un o'i pheccyn gofal yn raddol.

Eglurodd Mr Simons ei bryderon fod lefel y gofal un-i-un roedd ei wraig yn dibynnu arno yn lleihau, ac roedd yn poeni'n arbennig nad oedd wedi'i gynnwys yn unrhyw un o'r trafodaethau a arweiniodd at y gostyngiad hwn.

Er gwaetha'r sicrwydd y byddai Mr Simons yn rhan o unrhyw adolygiadau yn y dyfodol, tynnwyd y gofal un-i-un yn llwyr yn dilyn cyfarfod adolygu, ac ni chafodd ei wahodd unwaith i gymryd rhan yn y cyfarfod hwnnw.

Er ei fod yn sensitif i'r galwadau ar y gwasanaeth iechyd, roedd Mr Simons yn bryderus iawn ac yn poeni y byddai colli'r gofal un-i-un yn peryglu cyflwr sefydlog Mrs Simons ac yn effeithio ar ei hannibyniaeth a'i llesiant. Roedd cael gwared ar y gofal un-i-un yn cael effaith gynyddol ar ei hiechyd hi a'i theulu.

Roedd Mr Simons yn arbennig o bryderus ei bod hi'n unig yn y cartref gofal. Gan fod Mrs Simons yn byw gyda dementia cynnar, teimlai bod angen mwy o weithgareddau arni oedd wedi'u teilwra. Roedd eisiau gallu mynd â'i wraig allan yn y car i weld ei ffrindiau a'i theulu, ond ni allai wneud hynny heb gefnogaeth y gofalwr un-i-un. Roedd y teithiau hyn wir yn ysgogi Mrs Simons ac yn codi ei hwyliau, gan gael effaith bositif a'i helpu i gynnal lefel o allu gwybyddol. Pwysleisiodd fod ei chyflwr yn debygol o ddirywio dros y blynyddoedd nesaf a bod ganddyn nhw gyfle nawr iddi fwynhau ei hannibyniaeth.

Camau gweithredu a gymerwyd

Gyda chaniatâd priodol, mynychodd Uwch Weithiwr Achos gyfarfod rhwng Mr Simons, cynrychiolydd o dîm CHC y Bwrdd Iechyd, Asesydd Nyrsio a staff perthnasol y cartref gofal i drafod anghenion Mrs Simons.

Yn ystod y cyfarfod, cadarnhaodd ac ymddiheurodd cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd y gallai'r gostyngiad yn y cymorth un-i-un fod wedi'i reoli'n well a thrwy ymgynghori'n fwy effeithiol gyda Mr Simons.

Y gwahaniaeth a wnaed

Cafwyd cydnabyddiaeth y dylai Mr Simons fod wedi'i gynghori o'r cychwyn cyntaf nad oedd y cymorth un-i-un yn drefniant parhaol ac y byddai'n cael ei leihau neu ei stopio dros gyfnod o amser. Gwnaeth y Bwrdd lechyd ymrwymiad i sicrhau y byddai'r math yma o wybodaeth yn cael ei chyfathrebu'n glir i bobl oedd yn gymwys am gyllid CHC yn y dyfodol.

Er i'r penderfyniad gael ei wneud bod Mrs Simons yn parhau i fod â'r hawl i gyllid CHC, daeth asesiad nyrsio trylwyr i'r casgliad nad oedd hi bellach angen y gofal un-i-un y bu'n ei dderbyn o'r blaen. Serch hynny, roedd adroddiad yr Asesydd Nyrsio yn cynnwys cyfeiriad clir at anghenion cymdeithasol Mrs Simons a gwnaed cais ffurfiol i adolygu'r cynllun gofal.

Yn dilyn adolygiad o'r cynllun gofal, roedd Mrs Simons yn gallu derbyn 3 awr, ddwywaith yr wythnos ar raglen dreigl i'w galluogi i adael y cartref gofal i gymdeithasu gyda ffrindiau a theulu a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n briodol i'w hanghenion.

Ychydig fisoedd yn ddiweddarach, cefais ddiweddariad gan Mr Simons, a dywedodd fod y bwrdd iechyd hefyd wedi adolygu eu harferion mewn tri maes:

- Hyfforddi Aseswyr Nyrsio i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau mewn arferion
- Newid y broses adolygu cymorth un-i-un, lle mae angen ystyriaeth panel llawn
- Adolygu a diweddarau taflenni a llythyrau gwybodaeth i gleifion a gofalwyr.

Diweddarwyd Mr Simons ar y newidiadau hyn i'r arferion ac ymgynghorwyd ag ef hefyd a'i wahodd i gyfrannu at y deunyddiau gwybodaeth i gleifion a gofalwyr. Roedd Mr Simons yn teimlo bod codi ei bryderon wedi gwneud gwahaniaeth go iawn nid yn unig i sefyllfa ei wraig ond hefyd i wneud gwelliannau i bobl eraill yn y dyfodol.

Gwelodd Mr Simons gyfraniad fy Uwch Weithiwr Achos yn gymorth mawr a soniodd am natur bositif y cyfarfod. Dywedodd ei fod yn teimlo'n llawer gwell nawr fod ei lais wedi'i glywed ac roedd yn hyderus y gallai weithio gyda'r Asesydd Nyrsio i sicrhau bod ei wraig yn cael y bywyd gorau posibl.

Mr Price – Methiant i ymchwilio i ladrad o £50,000 gan ofalwr a gyflogwyd yn breifat

Cysylltodd Mr Price â'm swyddfa gan ei fod yn poeni bod ei ddiweddar fam wedi cael ei cham-drin yn ariannol gan ofalwr a dalwyd yn breifat a rhieni'r gofalwr.

Honnodd bod tua £50,000 o arian ei fam ar goll a'i fod wedi cyfeirio'r mater at yr heddlu.

Dywedodd wrth fy Nhîm Gwaith Achos, ers iddo lunio ei adroddiad, bod yr achos wedi'i basio rhwng nifer o wahanol swyddogion yr heddlu i'w ymchwilio ac wedi ei basio yn y pen draw i gwnstabl rhan amser. Roedd Mr Price yn poeni nad oedd gan y swyddog hwn yr adnoddau i ymchwilio'n iawn, ac yn ystod y chwe mis ers iddo hysbysu'r heddlu am y drosedd honedig, nid oedd wedi clywed dim ynglŷn â sut roedd ymchwiliad yr heddlu yn mynd ym ei flaen. Roedd yn ofni bod yr achos yn "aros wrth ochr y bin yn casglu llwch".

Camau gweithredu a gymerwyd

Cysylltodd fy nhîm Gwaith Achos â'r heddlu dan sylw ar ran Mr Price, gan nodi ei bryderon yn glir a'r materion roedd wedi eu hwynebu.

Ar ôl adolygu'r broses o reoli'r achos, cafwyd cydnabyddiaeth gan uwch swyddog yr heddlu fod safon yr ymchwiliad wedi gostwng yn is na'r lefel y byddai'n ei ddisgwyl a bod yr achos wedi'i roi i ddiectif yn adran ymchwiliadau troseddol yr heddlu. Gwnaed ymrwymiad y byddai'r ymchwiliad yn gyflym ac yn effeithlon, ac y byddai Mr Price yn cael ei ddiweddarau drwy gydol y broses.

Y gwahaniaeth a wnaed

Yn dilyn misoedd lle na chafwyd unrhyw gynnydd gyda'r ymchwiliad, sicraodd fy ymyrraeth fod yr honiadau a wnaed gan Mr Price yn cael eu harchwilio'n briodol gan heddwes profiadol. Roedd Mr Price yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth a roddwyd iddo gan fy Nhîm Gwaith Achos a mynegodd ei ddiolch eu bod wedi llwyddo i "symud pethau ymlaen o'r diwedd".

Nid yw'n credu y byddai'r achos hwn wedi'i ymchwilio'n drylwyr heb gefnogaeth fy Nhîm Gwaith Achos.

Daeth yn hysbys yn ddiweddarach bod oedi pellach yn yr ymchwiliad troseddol wedi deillio o gymhlethdodau gan ymatebion araf y banc wrth ddarparu wybodaeth glinigol i'r heddlu.

Mr & Mrs Ahmed - anghydfod rhwng Awdurdodau Lleol ynglŷn â chyfrifoldeb am gyllid gofal

Cysylltodd cyfreithiwr â'm swyddfa i ofyn am gymorth ar ran Mrs Ahmed, cyn-gleient sydd yng nghanol anghydfod rhwng Awdurdodau Lleol dros bwy oedd yn gyfrifol am ariannu gofal ei gŵr (Mr Ahmed).

O ganlyniad i'r anghydfod hwn, fe adawyd Mrs Ahmed heb unrhyw opsiwn ond i gyllido gofal ei gŵr yn breifat, gan dalu £3,400 bob mis o'u cynilion oedd yn prysur leihau. Roedd hi'n bryderus ac yn ofnus y gallai ei gŵr golli ei le yn y cartref gofal os na fyddai'r anfoneb yn cael ei thalu.

Cysylltodd Uwch Weithiwr Achos â Mrs Ahmed, a dywedodd fod dementia ar ei gŵr ac nad oedd ganddo'r gallu meddyliol i wneud penderfyniadau ynglŷn â'i eiddo a'i faterion. Felly, penodwyd Mrs Ahmed fel Dirprwy Ariannol ei gŵr gan y Llys Gwarchod.

Roedd Mr Ahmed wedi bod yn byw mewn cartref gofal pan gafodd ei dderbyn i'r ysbyty. Pan roedd yn barod i gael ei ryddhau, yn dilyn cyfnod hir yn yr ysbyty, nid oedd unrhyw welyau ar gael yn y cartref y bu'n byw ynddo'n flaenorol. Felly, gofynnwyd am gartref gofal arall a daethpwyd o hyd i ystafell. Fodd bynnag, roedd yr ystafell hon mewn Awdurdod Lleol gwahanol.

Roedd Mrs Ahmed wedi cysylltu â'r ddau awdurdod pan roedd cyfalaf ei gŵr yn agosáu at y terfyn cyfalaf er mwyn sicrhau y byddai ffioedd cartref gofal ei gŵr yn cael eu talu gan yr Awdurdod Lleol cyfrifol. Ar ôl pedwar mis, serch hynny, roedd y mater dal heb ei ddatrys.

Cafodd Mrs Ahmed drafferthion sylweddol wrth geiso cael enw cyswllt penodol yn y naill awdurdod neu'r llall a fyddai'n cymryd perchnogaeth o'r mater a'i chefnogi i'w ddatrys. Roedd y mater yn cael ei basio yn ôl ac ymlaen o un Awdurdod Lleol i'r llall.

Yn ogystal â theimlo'n bryderus ac yn ofidus am y sefyllfa, roedd Mrs Ahmed hefyd yn rhwystredig iawn fod y mater dal heb ei ddatrys, er gwaetha'r ffaith iddi wneud nifer o alwadau ffôn, ac aros yn hir i siarad â rhywun yn aml iawn (dros 40 munud mewn un enghraifft).

Er gwaetha'r ffaith bod yr Awdurdodau Lleol yn gwbl ymwybodol bod Mrs Ahmed a'i gŵr yn eu 80au ac yn derbyn pecynnau gofal, mae'n ymddangos nad oedd unrhyw frys i nodi pa Awdurdod Lleol oedd yn gyfrifol am ariannu gofal Mr Ahmed.

Camau gweithredu a gymerwyd

Gyda'r caniatâd priodol, cysylltais â'r Awdurdodau Lleol dan sylw, gan nodi'n ysgrifenedig nifer o bryderon ynglŷn ag effaith andwyol yr anghytundeb hwn ar Mr a Mrs Ahmed, a'i wneud yn glir fy mod i'n disgwyl i'r mater gael ei ddatrys cyn gynted â phosibl.

Drwy ohebu â'r Awdurdodau Lleol, daeth yn amlwg bod y sefyllfa hon wedi codi oherwydd anghydfod ynglŷn â ble yr ystyriwyd bod Mr Ahmed yn 'preswyllo gan amlaf'.

Y gwahaniaeth a wnaed

O ganlyniad i'm ymyrraeth, adolygwyd yr achos a derbyniodd un o'r Awdurdodau y cyfrifoldeb dros ariannu gofal Mr Ahmed. Yn ychwanegol at hyn, cafodd Mrs Ahmed ymddiheuriad ysgrifenedig llawn hefyd.

Wedyn ysgrifennais eto at yr Awdurdod Lleol oedd yn gyfrifol, gan amlinellu fy nisgwyliad y byddai Mrs Ahmed yn derbyn ad-daliad llawn o'r ffioedd y bu'n rhaid iddi dalu o ganlyniad i'w methiant i dderbyn cyfrifoldeb am ariannu gofal Mr Ahmed.

Cysylltodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol perthnasol â fi i gydnabod eu cyfrifoldeb gan ddweud y byddai llythyr yn cael ei anfon at Mrs Ahmed i ymddiheuro'n llawn am yr hyn a ddigwyddodd. Byddai'r llythyr hwn hefyd yn rhoi sicrwydd y byddai ffioedd cartref gofal ei gŵr yn cael eu talu gan yr Awdurdod Lleol ac na fyddai Mrs Ahmed yn cael ei gorfodi mwyach i dalu'r ffioedd o'r hyn sy'n weddill o'u cynilion.

Mr Jones – Pwysau annerbyniol i dalu ffi ychwanegol gwirfoddol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG a ariennir yn llawn

Cysylltodd Aelod Cynulliad â'm swyddfa yn poeni nad oedd un o'u hetholwyr, Mr Jones, wedi gallu gadael yr ysbyty ers cryn amser gan nad oedd yn bosibl canfod cartref gofal lleol a allai fodloni ei anghenion a'i dderbyn fel preswylydd.

Datgelodd trafodaethau gyda gweithiwr cymdeithasol Mr Jones fod lleoliad wedi'i ganfod, a oedd yn cael ei dalu'n llawn gan Gyllid Gofal Iechyd Parhaus y GIG (CHC). Serch hynny, daeth i'r amlwg bod perchennog y cartref gofal hefyd wedi ysgrifennu at Mrs Jones (gwraig Mr Jones), yn cynnig cyfle iddi dalu 'tâl ychwanegol' o £100 yr wythnos yn wirfoddol, a oedd yn adlewyrchu 'amgylchedd mwy moethus' y cartref. Roedd Mrs Jones yn glir na ddylid disgwyl i'w gŵr dalu unrhyw daliadau ychwanegol am ei ofal gan ei fod yn derbyn cyllid CHC.

Camau gweithredu a gymerwyd

Cysylltais â Mrs Jones i gasglu gwybodaeth ychwanegol oddi wrthi a chael copi o'r llythyr.

Roedd yn amlwg y byddai geiriad y llythyr - oedd yn awgrymu bod ymarferoldeb y cartref a'i safonau uchel yn dibynnu ar daliadau o'r fath - wedi rhoi pwysau sylweddol ar aelodau'r teulu i dalu 'taliadau ychwanegol', hyd yn oed os oedd gofal eu hanwyliaid yn cael ei ariannu'n llawn gan y GIG.

Cysylltais â'r Bwrdd Iechyd felly, gan egluro bod cynnwys a thôn y llythyr yn gwbl amhriodol a'i fod yn ymddangos fel pe bai'n anghydnaws â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar ariannu lleoliadau Gofal Iechyd Parhaus y GIG. Cytunodd y Bwrdd Iechyd wedyn i gynorthwyo Mr a Mrs Jones a dywedodd y bydden nhw'n ystyried pa gamau gweithredu y gellid eu cymryd a beth gellid ei ddysgu.

Y gwahaniaeth a wnaed

Yn dilyn eu hymchwiliad, ymatebodd y Bwrdd Iechyd, gan gadarnhau nad oedden nhw wedi gweld y llythyr a bod ei gynnwys yn achos pryder sylweddol. Dywedodd y Bwrdd Iechyd y bydden nhw'n cysylltu â Mrs Jones i weld sut y gallen nhw ei chefnogi, ac y bydden nhw hefyd yn cysylltu â phreswylwyr eraill y cartref (a/neu eu teuluoedd) i roi'r cyfle iddyn nhw drafod unrhyw drefniadau preifat a gytunwyd gyda'r cartref.

Cadarnhaodd y Bwrdd Iechyd hefyd y byddai uwch staff yn cwrdd â pherchennog y cartref gofal i'w herio ar gynnwys y llythyr a'u methiant i gydlynu â'r Bwrdd

lechyd ynglŷn â'u bwriad i gyhoeddi llythyr o'r fath. Yn ychwanegol, gwnaed ymrwymiad i wneud sefyllfa'r Bwrdd lechyd ar daliadau ychwanegol yn gliriach mewn contractau yn y dyfodol.

Drwy ddarparu cefnogaeth i Mr a Mrs Jones, roedd fy Nhîm Gwaith Achos yn gallu nodi ac amlygu arfer oedd yn peri pryder ac oedd yn cael ei fabwysiadu gan berchennog cartref gofal oedd yn effeithio ar lawer o drigolion hawdd eu niweidio, ac ni fyddai llawer ohonyn nhw wedi bod mewn sefyllfa i herio hyn.

Ers codi'r mater gyda'r Bwrdd lechyd, rwyf wrth fy modd eu bod wedi cyhoeddi contract i holl Gartrefi Gofal yn eu rhanbarth sy'n nodi'r gofyniad i bob cartref gofal roi gwybod i'r Bwrdd lechyd am unrhyw 'Wasanaethau Ychwanegol' y gellir codi tâl amdany'n nhw. Bydd adran Gofal lechyd Parhaus y Bwrdd lechyd hefyd yn adolygu natur unrhyw 'Wasanaethau Ychwanegol' a nodir i sicrhau eu bod yn unol â'r hyn a fanylir yn 'Gofal lechyd Parhaus y GIG: Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gweithredu yng Nghymru'.

Mrs Burton – Bwyd o ansawdd gwael mewn cartref gofal

Cysylltodd eiriolwr proffesiynol â'm swyddfa i egluro ei fod yn helpu Mrs Burton, cleient 84 oed, i fynegi ei hanfodlonrwydd gydag ansawdd y bwyd yn ei chartref preswyl.

Roedd Mrs Burton yn preswyl ym y cartref ers tair blynedd ac er nad oedd ganddi unrhyw broblemau gydag ansawdd y gofal yn y cartref, ers dros blwyddyn, roedd hi'n codi materion yng nghyfarfodydd y preswylwyr bob dau fis ynglŷn ag ansawdd gwael y bwyd a gynigiwyd i drigolion.

Yn benodol, esboniodd Mrs Burton fod selsig yn cael eu gweini mewn ryw ffurf sawl gwaith yr wythnos, powdwr oedd y cawl, nid oedd bisgedi yn cael eu cynnig ar y troli te a choffi, bod y sglodion yn galed ac yn sych a bod llawer iawn o fwyd yn cael ei goginio oddi ar y safle. Dywedodd hefyd fod wyau wedi'u tynnu oddi ar y fwydlen frecwast a bod ceisiadau gan drigolion i staff goginio wyau (yr oedden nhw'n fodlon talu amdanyn nhw'n ychwanegol at eu ffi gofal misol) yn cael eu gwrthod. Ar un achlysur, cafodd yr holl drigolion stiwdio cig oen oedd yn cynnwys dim ond un darn bach o gig yr un.

Yn hytrach na mynd i'r afael â'r adborth negyddol, roedd perchennog y cartref gofal wedi rhoi'r gorau i drafod arlwyo yn ystod cyfarfodydd y preswylwyr bob dau fis. Bellach, dim ond drwy staff y cartref gofal y gellid rhoi adborth ar unrhyw faterion yn ymwneud â bwyd, a fyddai'n trafod y mater gyda rheolwyr tu ôl i ddrysau caeëdig.

Er gwaethaf ei hymdrechion gorau i fynd i'r afael â'r mater ei hun, cafodd Mrs Burton ei siomi; nid oedd ansawdd y bwyd yn gwella. Teimlai nad oedd neb yn gwrando arni, nad oedd dim byd yn cael ei wneud a bod pethau'n gwaethygu yn lle gwella.

Roedd eiriolwr Mrs Burton wedi cwrdd â pherchnogion y cartref a gofynnwyd am gefnogaeth AGGCC, yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd. Gyda'u hymdrechion yn methu â sicrhau gwelliant, fodd bynnag, cysylltodd yr eiriolwr â'm swyddfa a gofynnodd am fy help.

Camau gweithredu a gymerwyd

Cyfarfu fy Nhîm Gwaith Achos â Mrs Burton a'i heiriolwr. Mynegodd Mrs Burton ei siom a'i rhwystredigaeth nad oedd perchnogion y cartref wedi cymryd unrhyw gamau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd ganddi o ran y bwyd.

Yn dilyn y cyfarfod, ysgrifennais at yr Awdurdod Lleol i dynnu sylw at fy mhryder bod y materion parhaus ac hirhoedlog roedd Mrs Burton yn eu hwynebu gydag ansawdd y bwyd yn y cartref, yn peryglu ei llesiant.

Y gwahaniaeth a wnaed

Nid oedd ymateb cychwynnol yr Awdurdod Lleol yn canolbwyntio'n ddigonol ar bryderon unigol Mrs Burton, ac ni fynegodd fawr ddim ynglŷn â sut byddai adborth Mrs Burton yn cael ei ddefnyddio i wella'r bwyd yn y cartref, rhywbeth a fyddai'n arwain at sefyllfa well i'r holl breswylwyr. Ysgrifennais unwaith eto at yr Awdurdod Lleol, gan ofyn am fwy o fanylion ynglŷn â'r hyn fyddai'n cael ei wneud i fynd i'r afael â phryderon Mrs Burton.

Roedd yr ail ymateb yn llawer cryfach, gan gadarnhau y byddai camau'n cael eu cymryd i sicrhau y byddai lleisiau preswylwyr yn cael eu clywed a'u gweithredu. At hynny, cadarnhaodd yr Awdurdod Lleol eu bod wedi cymryd camau i wella ansawdd y bwyd yn y cartref gofal, gan gynnwys cynyddu'r bwyd cartref oedd ar gael, dim powdr yn y cawl, cynyddu maint y prydau a chynnig dewis o bwdinau i breswylwyr. Byddai pob preswilydd hefyd yn derbyn arolwg er mwyn iddyn nhw roi sylwadau ar ansawdd y bwyd.

Gwnaeth yr Awdurdod Lleol ymrwymiad hefyd i gynnal ymweliad monitro pellach o fewn cyfnod byr o amser i sicrhau bod y gwelliannau a nodwyd yn cael eu cynnal.

Gyda gwelliant yn ansawdd y bwyd a gynigiwyd yn y cartref, roedd Mrs Burton yn fodlon bod ei phenderfyniad i fynd i'r afael â'r mater wedi arwain at sefyllfa well i'r holl breswylwyr.

Atodiad 1: Pwerau Cyfreithiol

Ewch i <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/30/contents> i ddarllen Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 a'r Rheoliadau sy'n cyd-fynd â hwy yn llawn.

Cymorth (Adran 8)

Gall y Comisiynydd gynorthwyo person sydd, neu wedi bod, yn berson hŷn yng Nghymru wrth wneud cwyn am gyrrff cyhoeddus, neu gyflwyno achos. Gall cymorth gynnwys cymorth ariannol neu drefnu i berson gynghori, cynrychioli neu gynorthwyo person hŷn.

Adolygiad o gyflawni swyddogaethau (Adolygiad Adran 3)

Gall y Comisiynydd adolygu'r ffordd y mae buddiannau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo pan fydd cyrrff cyhoeddus yn cyflawni eu swyddogaethau, yn bwriadu cyflawni eu swyddogaethau neu'n methu â chyflawni eu swyddogaethau. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n cyflawni swyddogaethau ar ran cyrrff cyhoeddus.

Mae gan y Comisiynydd yr awdurdod cyfreithiol i fynd i mewn i unrhyw le (heblaw cartrefi preifat unigolion) i gyfweld â phobl hŷn gyda'u caniatâd.

Adolygiad o drefniadau eirioli, chwythu'r chwiban neu gwynion (Adolygiad Adran 5)

Mae hyn yn debyg i Adolygiad Adran 3, ond mae'n canolbwyntio ar a yw trefniadau eirioli, chwythu'r chwiban a chwynion penodol rhai cyrrff penodol yn effeithiol o ran diogelu a hybu buddiannau pobl hŷn perthnasol yng Nghymru.

Yn ystod y math hwn o Adolygiad, gall y Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i gyrrff ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen arni i gynnal ei Hadolygiad. Gall unrhyw fethiant i ddarparu gwybodaeth o'r fath gael ei gyfeirio, trwy dystysgrif, i'r Uchel Lys edrych ar y mater. Mae'n bosibl y byddai rhywun sy'n gwrthod darparu gwybodaeth yn cael ei drin fel achos o ddirmyg llys.

Archwiliad (Adran 10)

Mae gan y Comisiynydd bwerau i gynnal archwiliad cyfreithiol lle mae'r materion a godir gan unigolyn yn debygol o gael eu profi gan bobl hŷn a theuluoedd eraill ledled Cymru, a lle byddai dysgu o'r achos yn helpu i lywio arferion ehangach, a/ neu lle mae'r Comisiynydd o'r farn bod yr achos yn dangos bod hawliau dynol rhywun wedi'u torri.

Mae Rheoliadau 2007 yn nodi'r prif ffiniau y gellir cynnal archwiliad, gosod cylch gorchwyl, er enghraifft, y gallu i holi dan lw, galw tystion, ac ati.

Os bydd unrhyw berson neu gorff yn gwrthod cydymffurfio ag archwiliad, yn gwrthod cyflenwi gwybodaeth mewn cysylltiad ag archwiliad, neu'n gwrthod esbonio sut y byddant yn cydymffurfio â'r argymhellion, gall y Comisiynydd roi tystysgrif i'r Uchel Lys i archwilio'r mater a gallai arwain at berson neu gorff yn cael ei drin fel achos o ddirmyg llys.

Cyhoeddi Canllawiau (Adran 12)

Gall y Comisiynydd gynhyrchu canllawiau ar arfer gorau mewn cysylltiad ag unrhyw fater sy'n ymwneud â buddiannau pobl hŷn yng Nghymru. Wrth gynhyrchu canllawiau o'r fath, rhaid iddi ymgynghori â phobl, sydd yn ei barn hi, yn briodol.

Unwaith y bydd y canllawiau'n cael eu cynhyrchu, rhaid i gyrrff cyhoeddus a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau rheoledig ystyried y canllawiau wrth gyflawni eu swyddogaethau.

